Elaine Carlile
Cyfarwyddwr Cyflenwi Asesiadau a Swyddog Cyfrifol

27/11/2020

Amod Cydnabod Arbennig

Daw'r amod cydnabod arbennig i rym ar unwaith a bydd yn parhau mewn grym tan 1 Chwefror 2021.

Yn unol ag Atodlen 3, paragraff 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, mae Cymwysterau Cymru yn rhoi'r amod cydnabod arbennig canlynol i CBAC-WJEC.

ACA4.1 Rhaid i CBAC-WJEC sicrhau nad oes unrhyw Ddysgwr yn sefyll asesiadau uned wedi'u gosod a'u marcio'n allanol ar gyfer cymwysterau TGAU Llenyddiaeth Saesneg, TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, TGAU TGCh a TGAU TGCh (cwrs byr) ym mis Ionawr 2021.

ACA4.2 I'r graddau bod unrhyw anghysondeb rhwng -

(a) gofyniad a gynhwysir fel rhan o'r Amod Arbennig hwn;
(b) un o ofynion unrhyw Amod Arbennig arall;
(c) un o ofynion yr Amodau Cydnabod Safonol;
(d) un o ofynion Amodau Cydnabod Safon Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU/TAG, ac
(e) unrhyw Ddogfen Reoleiddiol arall

fel na allai CBAC-WJEC gydymffurfio â'r ddau ofyniad o'r fath, rhaid i CBAC-WJEC gydymffurfio â gofyniad yr Amod Arbennig hwn ac nid oes rheidrwydd arno i gydymffurfio â gofyniad yr Amod arall.

Yn gywir

J. Richards

Jo Richards

Cyfarwyddwr Gweithredol - Rheoleiddio